



Medicines & Healthcare products
Regulatory Agency



NFCC
National Fire
Chiefs Council

**Defnyddio'ch
esmwythyddion
yn ddiogel**

#DeallRisgTân

Oeddech chi'n gwybod?

Gall dillad gydag esmwythyddion wedi sychu
arnynt fynd ar dân yn hawdd



Beth yw esmwythydd?

Defnyddir esmwythyddion i drin pobl o bob oed am gyflyrau croen sych, croen yn cosi neu groen cennog megis ecsema a psoriasis. Defnyddir esmwythyddion hefyd i atal neu drin briwiau pwyso.



Gellir prynu esmwythyddion dros y cownter neu eu cael trwy bresgripsiwn ar ffurf golchdrwythau, chwistrellau, hufenau, eli, olew bath ac amnewidion sebon. Gallant fod â sail ddŵr iddynt, cynnwys paraffin neu olewau naturiol.

Pam ddylech fod yn ofalus

Nid yw esmwythyddion yn fflamadwy ynddynt eu hunain. Fodd bynnag, gall defnydd rheolaidd o'r cynhyrchion hyn, yn enwedig pan gânt eu rhoi ar rannau helaeth o'ch corff, arwain at iddynt sychu ar eich dillad, dillad gwely a rhwymau/gorchuddion gan adael gweddillion fflamadwy. Os byddwch wedyn yn cyflwyno ffynhonnell danio neu wres megis:

Gollwng sigarét wedi'i chynnau, matshys neu daniwr yn ddamweiniol



Eistedd yn rhy agos at dân nwy, halogen, neu dân agored



Dal dillad ar hob wrth goginio



gallwch achosi tân. Bydd y tân yn llosgi'n ddwys iawn, yn lledu o fewn eiliadau a gallai arwain at anaf difrifol neu farwolaeth.

Gwiriad diogelwch tân yn y cartref

Dylai unrhyw un sy'n defnyddio esmwythyddion fod yn ymwybodol o'r risg. Rydym yn eich cyngori i gwblhau gwiriad diogelwch tân yn y cartref ar-lein am ddim i gael cyngor ac, os oes angen, trefnu ymweliad gan eich gwasanaeth tân.

Ewch i www.safelincs.co.uk/hfsc/nfccem neu sganwch y cod QR.



Beth ddylech ei wneud i sicrhau eich bod yn ddiogel:

Gofynnwch i'ch gofal iechyd darparwr ar gyfer cymorth i'ch helpu i roi'r gorau i ysmegu neu am gyngor ar gymhorthion rhoi'r gorau i ysmegu amgen.

Sicrhewch eich diogelwch trwy beidio ag ysmegu a pheidio â gadael i eraill ysmegu yn agos atoch os oes unrhyw siawns y gallai eich dillad, gorchuddion neu ddrillad gwely fod wedi'u halogi ag esmwythydd.

Peidiwch byth ag ysmegu yn y gwely.

Gwnewch yn siŵr bod gan eich cartref larymau mwg sy'n gweithio a'u profi yn rheolaidd.

Coginiwch yn ddiogel trwy ddefnyddio ffwrn micro-don, ffrîwr aer, neu hob anwytho er mwyn osgoi risgiau tân os yw dillad neu orchuddion wedi'u halogi ag esmwythyddion a pheidiwch â defnyddio hob nwy neu drydan.

Cadwch bellter diogel oddi wrth danau bar agored, nwy neu drydan a gwresogyddion halogen wrth gadw'n gynnes.

Peidiwch â sychu dillad ar neu o flaen tanau neu wresogyddion.

Rhwystrowch weddillion esmwythyddion rhag cronni ar ddodrefn meddal trwy ddefnyddio blancedi i'w gorchuddio a'u golchi'n rheolaidd ar y tymheredd uchaf mae'r gwneuthurwr yn cynghori i leihau'r risg.

Cadwch ganhwylau oddi wrth eich dillad, gan gynnwys pan fyddwch yn eu cynnau.

Dywedwch wrth eich gweithiwr gofal iechyd proffesiynol neu ofalwr am unrhyw newidiadau yn eich cyflwr a allai effeithio ar eich diogelwch tân, megis meddyginiaethau newydd sy'n achosi cysgadwydd, dirywiad sylweddol mewn symudedd, neu broblemau cof, problemau gyda'r cof neu gofio.


Darllenwch y rhybuddion ar becynnau cynnyrch a'u rhannu, ynghyd â'r cyngor yn y daflen hon, gyda'ch teulu a'ch gofalwyr fel y gallant helpu i'ch cadw'n ddiogel.

Golchwch ffabrigau yn rheolaidd

Golchwch ffabrigau sydd ag esmwythydd wedi sychu arnynt yn rheolaidd ar y tymheredd uchaf a argymhellir gan y cyfarwyddiadau gofal ffabrig.

Bydd hyn yn lleihau rhywfaint o'r halogiad ond efallai na fydd yn cael gwared arno'n llwyr.

Os ydych yn defnyddio peiriant sychu dillad, defnyddiwch osodiad tymheredd oerach a sicrhewch ei fod yn rhedeg trwy'r cylch oeri terfynol cyn plygu'r ffabrigau. Bydd hyn yn caniatáu i'r gwres wasgaru.



Beth i'w wneud os bydd eich dillad yn mynd ar dân

Os gallwch:



Local Fire Service Details go here:

Mae'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd yn gweithio mewn partneriaeth â NFCC i helpu pobl i ddeall y risgiau tân sy'n gysylltiedig ag emollients. Darganfyddwch fwy am ein gwaith yn www.mhra.gov.uk